PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Polisi ynglŷn â dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| 30 Medi 2021 | Cymeradwyaeth, Grŵp Tasg Cydymffurfio | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu | Prif Swyddog Gweithredu | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 30 Medi 2021 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd

**Polisi ynglŷn â dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff**

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r rhesymeg dros ddefnyddio offer fideo a wisgir ar y corff gan aelodau staff Prifysgol Bangor, ac yn amlinellu'r defnydd priodol o'r cyfryw ddyfeisiau.

Mae llawer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn defnyddio fideos a wisgir ar y corff i ddarparu lluniau sain a fideo o ansawdd pan fydd staff yn ymateb i ddigwyddiadau. Mae offer fideo a wisgir ar y corff yn darparu ataliad gweladwy rhag ymosodiad corfforol ar staff ac yn sicrhau ar yr un pryd bod staff sy'n gwisgo'r cyfryw offer yn cynnal y safonau proffesiynol uchaf wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol.

Nid yw offer fideo a wisgir ar y corff yn recordio'n barhaus ond mae'r sawl sy'n gwisgo'r cyfryw offer yn cychwyn recordio wrth iddo werthuso sefyllfa wrth iddi newid.

## 2. Defnyddio Offer Fideo a wisgir ar y Corff

Ym Mhrifysgol Bangor, byddai digwyddiadau a recordiwyd gan fideo a wisgir ar y corff fel arfer yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol:

a) digwyddiadau sydd eisoes ar y gweill sy'n torri rheoliadau disgyblu'r Brifysgol neu gyfraith gwlad;

b) digwyddiadau a allant ddatblygu'n fwy difrifol a thorri rheoliadau disgyblu'r Brifysgol neu gyfraith gwlad;

c) digwyddiadau brys, y mae'r aelod staff o'r farn y mae angen eu recordio at ddibenion tystiolaethol yn y dyfodol, er enghraifft ymchwiliad tân mewn ymateb i larwm awtomataidd; a / neu

d) lle mae bygythiad o ymosodiad corfforol neu lafar i unigolyn ar eiddo'r Brifysgol.

Yr aelod o staff y mae dyfais wedi'i rhoi iddo sy'n bennaf gyfrifol o ran penderfynu recordio digwyddiad.

## 3. Polisïau Prifysgol Cysylltiedig

Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â Pholisïau a Gweithdrefnau canlynol y Brifysgol:

- Polisi Diogelu Data
- Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr
- Polisïau Disgyblu Staff
    - Y Drefn Gwyno a'r Drefn Ddisgyblu - Staff Cefnogi
    - Y Drefn Gwyno a'r Drefn Ddisgyblu - Staff Academaidd, Rheoli a Phroffesiynol

- Amodau Neuaddau Preswyl Prifysgol Bangor
- Polisi Diogelu
- Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng

## 4. Gweithdrefnau: Dyfeisiau Fideo a Wisgir ar y Corff

### a) Hyfforddiant:

Bydd yr holl aelodau staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant allanol ar ddefnyddio dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys defnydd ymarferol o offer, arweiniad o ran sut i'w defnyddio ac arferion gorau, pryd i ddechrau a rhoi'r gorau i recordio a goblygiadau cyfreithiol defnyddio offer o'r fath.

Yn ogystal, bydd aelodau staff yn cael hyfforddiant diogelu data cyn dechrau defnyddio'r ddyfais fideo a wisgir ar y corff.

Caiff hyfforddiant ei ddiweddaru yn ôl yr angen pan fydd newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth, arferion gorau a chanllawiau, neu ar gais y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws, neu'r Rheolwr Diogelwch ac Ymateb.

### b) Defnydd Beunyddiol

i. Dylid defnyddio fideo a wisgir ar y corff dim ond os bydd aelodau staff yn canfod eu hunain mewn sefyllfa o wrthdaro lle maent yn cael eu cam-drin ar lafar neu'n gorfforol, neu'n gweld bod hynny yn bosibilrwydd.

ii. Caiff dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff eu gwisgo mewn lle amlwg ar wisgoedd/dillad allanol a byddant yn amlwg i bawb.

iii. Ni fyddir yn dechrau recordio nes bod yr aelod staff wedi cyhoeddi rhybudd llafar, lle bo hynny'n bosibl, o'i fwriad i ddechrau recordio ar y ddyfais fideo.

iv. Bydd dyfeisiau'n cynnwys sgrin sy'n wynebu'r blaen a dangosydd recordio fel ei bod hi'n amlwg bod y ddyfais yn recordio.

v. Ni fyddir yn recordio fel arfer pan fydd aelod o staff yn cyflawni ei orchwylion beunyddiol arferol.

vi. Caiff pob recordiad ei gadw yn ddiogel ar y ddyfais a'i uwchlwytho'n awtomatig i blatfform storio yn y cwmwl yn syth ar ôl ei gysylltu â rhwydwaith wifi y Brifysgol neu ar ôl ei ddychwelyd i orsaf ddocio.

vii. Caiff pob dyfais ei gwarchod â chyfrinair a rhoddir dyfais yr un i bob defnyddiwr. Ni chaniateir rhannu dyfeisiau.

viii. Ni chaniateir i ddefnyddwyr cyffredinol y dyfeisiau ail-chwarae, golygu na dileu recordiadau.

ix. Dim ond uwch staff awdurdodedig gaiff weld recordiadau, a dim ond yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol y caiff recordiadau eu rhannu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yr unig staff gaiff weld y recordiadau fydd:

    - Y Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu
    - Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Campws

- Pennaeth Cyfleusterau a Gweithrediadau
- Rheolwr Diogelwch

**c) Y Drefn ar Ddechrau Sifft**

Ar ddechrau pob shifft, bydd yr aelod staff yn sicrhau bod yr uned yn gweithio’n iawn. Wrth wirio dylid sicrhau hefyd bod yr uned wedi'i gwefru'n llawn a bod y dyddiad a'r amser a ddangosir yn gywir.

**d) Recordio**

i. Rhaid i recordio fod yn benodol i ddigwyddiadau. Ni ddylai staff gofnodi dyletswyddau neu batrolau cyfain yn ddiwahân a dylent recordio i gofnodi tystiolaeth fideo a sain o ddigwyddiadau penodol yn unig.

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir 'digwyddiad' fel:

- Ymwneud ag unigolyn ar eiddo'r Brifysgol sydd, ym marn yr aelod Staff, yn wrthdaro, a lle mae'r aelod staff yn credu y gall gael ei gam-drin yn gorfforol neu ar lafar neu i gasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiad Digwyddiad Prifysgol.
- Bod rhywun ar eiddo'r Brifysgol yn dynesu at aelod staff mewn modd sy'n cael ei ystyried yn ymosodol neu'n fygythiol.

ii. Ar ddechrau unrhyw recordiad, dylai aelod o staff, lle bo hynny'n bosibl, wneud cyhoeddiad ar lafar i nodi pam ei fod yn recordio, a lle bo hynny'n bosibl, dylai hyn gynnwys y dyddiad, yr amser a'r lleoliad ynghyd â chadarnhad bod y digwyddiad yn cael ei recordio gan ddefnyddio fideo a sain.

iii. Diben cyhoeddi rhybudd llafar yw rhoi cyfle i'r gwrthrych addasu unrhyw ymddygiad o wrthdaro neu ymosodol a bygythiol annerbyniol. Os yw'r aelod staff, ar unrhyw adeg yn ystod digwyddiad, o'r farn bod defnyddio dyfais fideo a wisgir ar y corff neu gyhoeddi rhybudd llafar, yn debygol o wneud sefyllfa o wrthdaro yn waeth, gall yr aelod staff ddewis ymatal rhag unrhyw drafodaeth bellach ac encilio o’r digwyddiad.

iv. Ni ddynodir unrhyw frawddeg neu ymadroddion penodol i'w defnyddio wrth rybuddio rhywun, ond dylai staff ddefnyddio ymadroddion syml a chlir y gall y rhai sy'n bresennol eu deall yn hawdd megis:

*“Dw i’n gwisgo camera recordio ar fy nghorff a dw i nawr yn recordio fideo a sain”*

Dylai'r rhybudd hwn gael ei gyflwyno yn gyntaf yn Gymraeg ac yna yn Saesneg.

**e) Cais i weld neu chwarae fideo**

i. Dim ond ar ôl derbyn adroddiad digwyddiad wedi'i ddogfennu y dylid adolygu digwyddiadau. Dylai hyn gadarnhau bod recordiad wedi'i wneud a'i fod ar gael i ategu'r adroddiad ysgrifenedig.

ii. Bydd y platfform storio ar-lein yn cofnodi pob achlysur o weld a chwarae’r recordiad.

iii. Bydd angen i unrhyw gais i wylio’r fideo gan y sawl a gafodd ei recordio ddilyn y weithdrefn y cytunwyd arni ar gyfer cyrchu gwybodaeth, a amlinellir ym Mholisi Diogelu Data'r Brifysgol. Gweithredir hyn ar y cyd â'r Gwasanaethau Llywodraethu.

**f) Diwedd y Shifft**

Ar ddiwedd pob shifft, mae'n hanfodol dychwelyd pob dyfais i orsaf ddocio er mwyn eu gwefrio a gwneud copi wrth gefn o recordiadau i blatfform storio ar-lein, a gymeradwywyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

**g) Cadw**

Dylid cadw recordiadau sydd wedi'u categoreiddio fel tystiolaeth yn unol ag Amserlen Cadw Data a Chofnodion y Brifysgol a’r Polisi Rheoli Cofnodion. Caiff mwyafrif y recordiadau eu dileu 6 blynedd ar ôl cau unrhyw achos a orfodwyd gan y Brifysgol neu’r gyfraith. Bydd unrhyw ddeunydd a gofnodir nad yw'n dystiolaeth yn cael ei gadw am uchafswm o 1 mis calendr oni bai bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws neu'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu neu rywun arall a awdurdodwyd gan y cyfryw bobl hyn yn nodi’n wahanol, neu ar gais yr Heddlu neu asiantaeth arall sy’n gorfodi'r gyfraith.